

Tŷ Penallta,  
Parc Tredomen,  
Ystrad Mynach,  
Hengoed CF82 7PG

Penallta House,  
Tredomen Park,  
Ystrad Mynach,  
Hengoed CF82 7PG



Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol  
Corporate Director - Education and Corporate Services

www.caerffili.gov.uk | www.caerphilly.gov.uk

## Llywodraeth Cymru: Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad – 2020/21

### Diweddariad i deuluoedd

**Yn achos ceisiadau ar gyfer mis Medi 2020, NI FYDD** y ceisiadau'n dod i law ein hysgolion, ond byddan nhw'n dod i law yr **Awdurdod Lleol**, ac yn cael eu gweinyddu ganddo. Oherwydd yr amgylchiadau presennol, mae proses ymgeisio ar-lein newydd wedi'i datblygu ar gyfer 2020. Mae disgwyl i'r broses ymgeisio ar-lein fod ar gael i deuluoedd o ddydd Llun 27 Gorffennaf 2020. Bydd cymorth hefyd yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod Lleol lle nad oes modd i deuluoedd wneud cais ar-lein. Bydd manylion a diweddariadau ar gael ar wefan Caerffili. Er mwyn tawelu meddwl teuluoedd, bydd ceisiadau a thaliadau yn mynd ymlaen yn ystod gwyliau'r haf ac o fis Medi ymlaen.

**Pwrpas y Cynllun** yw darparu cymorth ar ffurf grant i deuluoedd ar incwm isel. Ei nod yw rhoi cymorth i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oherwydd y budd-daliadau neu'r taliadau cymorth y mae eu rhieni/gwarcheidwaid yn eu cael **ar hyn o bryd**. [Noder: Yn achos disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim drwy'r cynnig **amddiffyn wrth bontio**, sy'n gysylltiedig â chyflwyno Credyd Cynhwysol, **nid ydyn nhw'n gymwys** i fanteisio ar y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad – 2020/21.]

Mae'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad – yn darparu cymorth ar gyfer prynu'r canlynol:

- Gwisg ysgol, gan gynnwys cotiau ac esgidiau;
- Gwisg chwaraeon ysgol, gan gynnwys esgidiau;
- Gwisg ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, sgowtiaid, geidiaid, cadetiaid, crefft ymladd, chwaraeon, celfyddydau perfformio neu ddawns;
- Offer, e.e. bagiau ysgol a deunydd ysgrifennu;
- Offer arbenigol lle mae gweithgareddau cwricwlwm newydd yn dechrau, fel dylunio a thechnoleg; ac
- Offer ar gyfer teithiau y tu allan i oriau ysgol, fel dysgu yn yr awyr agored, e.e. dillad gwrth-ddŵr.

**Mae'r cyllid hwn ar gael** i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (**fel sydd wedi'i nodi uchod**) ac sy'n dechrau yn y canlynol:

- **Dosbarth Derbyn** mewn ysgolion cynradd a gynhelir ym mis Medi 2020;
- **Blwyddyn 3** mewn ysgolion cynradd a gynhelir ym mis Medi 2020;
- **Blwyddyn 7** mewn ysgolion uwchradd a gynhelir ym mis Medi 2020;
- **Blwyddyn 10** mewn ysgolion uwchradd a gynhelir ym mis Medi 2020;
- Disgyblion mewn ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau anghenion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion a darpariaeth amgen (wedi'i threfnu gan yr Awdurdod Lleol) sy'n dechrau yn y **Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 3, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10** ym mis Medi 2020.

**Mae'r cyllid ar gael i BOB plentyn o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn gofal, beth bynnag yw'r cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim. Yn achos plant sy'n derbyn gofal, bydd angen gwneud cais i'r Awdurdod Lleol lle mae'r disgybl yn mynychu'r ysgol.**

**Yn achos teuluoedd â disgyblion sy'n destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, rhaid i'r gwarcheidwaid/gofalyddion fodloni'r meini prawf cymhwysedd er mwyn bod yn gymwys i wneud cais (grŵp blwyddyn perthnasol / yn cael prydau ysgol am ddim oherwydd cael budd-daliadau neu daliadau cymorth).**

**Yn achos disgyblion sydd heb unrhyw hawl i arian cyhoeddus ac sy'n dechrau yn y Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 3, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10 yn y flwyddyn ysgol 2020–21, maen nhw'n gymwys i gael cymorth drwy'r cyllid hwn.**

**Mae hyd at £125 ar gael i bob dysgwr ac eithrio'r rhai ym Mlwyddyn 7. Bydd gan ddysgwyr cymwys ym Mlwyddyn 7 yr hawl i gael hyd at £200. Mae hyn yn cydnabod y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â dechrau yn yr ysgol uwchradd.**

Er mwyn tawelu meddwl teuluoedd, os yw gwisg eisoes wedi'i phrynu ar gyfer dysgwr, a'i fod yn bodloni'r meini prawf, mae'r canllawiau'n eithaf clir bod modd gwneud ôl-gais.